



Ein cyf/Our ref: qA1495798

Mr John Raine  
Rheolwr Tîm Cynlluniau Datblygu  
Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent  
Y Swyddfeydd Cyffredinol  
Heol Gwaith Dur  
Glynebwy  
NP23 8UW

24 Gorffennaf 2024

## Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent: Cynllun Newydd Cyntaf y Cytundeb Cyflawni Diwygiedig

### Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 (fel y'u diwygiwyd)

Diolch am eich e-bost ar 19 Gorffennaf yn gofyn am gymeradwyaeth i'ch Cytundeb Cyflawni (DA) diwygiedig ar gyfer eich Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) newydd. Daw'r cais Cytundeb Cyflawni hwn o ganlyniad i'ch awdurdod yn mynd y tu hwnt i'r llithriant y cytunwyd arno ym mhroses paratoi'r cynllun, fel y nodir yn y Cytundeb Cyflawni cychwynnol, ar gyfer cynllun newydd sy'n cwmpasu'r cyfnod 2018-2033.

Mae paratoi Cynllun Datblygu Lleol yn ddyletswydd statudol ar bob Awdurdod Cynllunio Lleol yng Nghymru. Mae bod â chynllun datblygu cyfredol ar waith yn sail i'r holl system gynllunio yng Nghymru ac mae'n ategu ymrwymiad y Llywodraeth i ddatblygu a arweinir gan gynlluniau. Mae rheoli prosiectau yn effeithiol a thystiolaeth gyfredol yn hanfodol er mwyn sicrhau y gellir paratoi'r cynllun yn unol â'r amserlenni a nodir yng Nghamau 3 - 7 (tudalennau 19 - 23) ac Atodiad 2 y Cytundeb Cyflawni diwygiedig. Mae'r amserlen a nodir yn y Cytundeb Cyflawni diwygiedig yn cyd-fynd â'r gofynion yn y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Argraffiad 3), gan gydnabod bod gan eich awdurdod gynllun a fabwysiadwyd ar waith eisoes wedi'i ategu gan nifer o ddogfennau tystiolaeth.


Prawf cadernid y bydd y cynllun yn cael ei ystyried yn ei erbyn wrth iddo gael ei archwilio yw a yw'n cydymffurfio â'r Cytundeb Cyflawni y cytunwyd arno, gan gynnwys y Cynllun Cynnwys Cymunedau (CIS). Bydd angen i'r cynllun hefyd ddangos 'cydymffurfiaeth gyffredinol' â Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040.

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r ymrwymiad a ddangoswyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent i baratoi eich cynllun newydd. Mae eich Cytundeb Cyflawni diwygiedig a gyflwynwyd yn cynnwys dadansoddiad manwl o amseriadau pob cam y Cynllun Datblygu Lleol (yn Atodiad 2) gyda dyddiad mabwysiadu dangosol o fis Hydref 2026.

Ar ôl ystyried y Cytundeb Cyflawni yr ydych wedi'i gyflwyno, gallaf **gadarnhau ein bod yn cytuno** i'r amserlen a nodir yn Nhabl 1 fel y darperir ar ei chyfer gan Adran 63(4) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a Rheoliad 9 o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 (fel y'u diwygiwyd).

Dylech nawr wneud yn siŵr bod y fersiwn gyhoeddedig o'ch Cytundeb Cyflawni ar gael i'r cyhoedd yn unol â'r gofynion a nodir yn Rheoliad 10.

Yn gywir,



**Neil Hemington**  
**Prif Gynllunydd**  
**Chief Planner**